YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

5 Tachwedd 2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,


*Ffarwel a diolch i Mrs Ffion Roberts*

**Croeso nôl:** Gobeithio eich bod wedi mwynhau hanner tymor dymunol ac ymlaciol wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol ddydd Llun, 6 Tachwedd (wyth 1)

**Marcio ac adborth effeithiol:** Eleni, rydym am barhau i ganolbwyntio ar dreialu gwahanol ddulliau o farcio ac adborth. Bydd adrannau'n edrych ar amrywio eu hadborth ac ar gynyddu amser i ddisgyblion ymateb i'r cyngor a roddir. Byddwn yn canolbwyntio ar farcio'n effeithiol yn hytrach na marcio pob darn o waith disgyblion. Mae ymchwil addysgol cyfoes yn dangos bod derbyn adborth llafar mewn gwersi (asesu byw) a darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb a myfyrio ar adborth yn elfennau allweddol i sicrhau cynnydd. Dylai disgyblion hefyd glywed eu hathrawon yn cyfeirio at *"Tasgau Her Uchel*". Bydd y tasgau hyn yn bwysig wrth i ni geisio tracio a monitro cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol. Gobeithiwn rannu mwy o wybodaeth gyda chi am y gwaith datblygu pwysig hwn, yn ystod y flwyddyn.

**System ffôn newydd:** Dros yr hanner tymor rydym wedi gosod system ffôn newydd yn yr ysgol ac rydym wedi cael cyngor y gallai gymryd ychydig ddyddiau i drosglwyddo'r hen rifau i'r system newydd. Bydd prif linellau y dderbynfa yn weithredol, ond efallai na fydd rhai o'n llinellau mewnol mewn defnydd llawn yn ystod yr wythnos hon. Dylai'r system newydd fod yn gyflawn erbyn dydd Llun 13 Tachwedd. Os ydych yn cael unrhyw anhawster i gysylltu â ni, cofiwch am ein e-byst cyswllt: [Cysylltwch A Ni (glantaf.cymru)]


*Galwad i Joseff, Ioan, Tom. Lloyd a Sion i dîm Cymru dan 18*

**Cerddorfa Clwstwr Glantaf, 9 Tachwedd am 4pm:** Cawsom ymateb brwdfrydig i'n Cerddorfa Clwstwr Unedig ar gyfer disgyblion Bl 4>Bl13. Gwahoddir rhieni yn gynnes i ymuno â ni ar gyfer cyngerdd anffurfiol am 4pm yn ein Neuadd Chwaraeon (nid y Brif Neuadd).

**Gŵyl Gerdd Dant, 11 Tachwedd:** Dymunwn bob llwyddiant i'n disgyblion (a nifer o staff!) wrth gystadlu yn yr *Ŵyl Cerdd Dant*, i'w chynnal yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, Heol Dumballs, ddydd Sadwrn, 11 Tachwedd.

**Noson Wybodaeth Diogelwch Ar-lein i Rieni, Dydd Llun 13 Tachwedd 5pm (cyfrwng Cymraeg) a 6pm (cyfrwng Saesneg):** Gwahoddir rhieni/gwarcheidwaid i ymuno â ni mewn cyfarfod *Teams* sy'n canolbwyntio ar ganllawiau diogelwch ar-lein ar gyfer rhieni. Fel y gwyddoch, mae nifer o achosion proffil uchel wedi bod yn ddiweddar ble mae pobl ifanc a phlant wedi dioddef camdriniaeth a bwlio creulon ar-lein. Rydym yn frwd i rannu canllawiau ymarferol ynghylch cadw ein pobl ifanc yn ddiogel ac o godi ymwybyddiaeth o'r peryglon gwirioneddol y mae'n rhaid i'n pobl ifanc eu hwynebu. Os yw'ch plentyn wedi ymuno ym Mlwyddyn 7 eleni, mae croeso arbennig i chi, a bydd cyfle am sesiwn holi ac ateb anffurfiol ymhob cyfarfod. Bydd dolenni cysylltu i ddilyn ac maent hefyd ar galendr *Teams* eich plentyn.




***Noson y Rasus – Cyfeillion Glantaf*** **nos Wener 24 Tachwedd am 7.30pm**: Ymunwch â ni ar gyfer ein digwyddiad codi arian *Cyfeillion Glantaf* yng Nghlwb Tennis yr Eglwys

Newydd! Mae tocynnau ar gael ar ParentPay, am bris o £10 ac edrychwn ymlaen at noson arbennig i gwrdd ag aelodau newydd er mwyn cefnogi gwaith yr ysgol.
**Imiwneiddio ffliw, chwistrell trwyn – 7 & 8 Rhagfyr: Bl 7-11:** Byddwn yn anfon manylion y rhaglen imiwneiddio hon atoch cyn bo hir, cadwch olwg am y llythyr a chofiwch gofnodi eich caniatâd ar-lein.

***Un Bore Mawrth*: Cynhyrchiad drama Glantaf, 28-30 Tachwedd:** Archebwch nawr i sicrhau eich tocyn ar gyfer "*Un Bore Mawrth*". Mae'r ddrama gosod TGAU yma sydd wedi'i haddasu gan Daf James, cyn-ddisgybl a dramodydd enwog, yn trafod "dydd Mawrth ddigon cyffredin"sy'n troi'n ddiwrnod rhyfedd iawn pan mae'r awyr uwchben yr ysgol yn rhwygo'n agored! Bydd tocynnau'n cael eu rhyddhau ar *Parentpay* ddydd Llun 6 Tachwedd am 8am am bris o £15 i oedolion a £8 (dan 18) gyda thocyn teulu, (2 oedolyn a 2 blentyn) am £40. Edrychwn ymlaen at wledd theatrig wrth ddymuno'n dda i'n disgyblion yn eu hymarferion.

**Blwyddyn 11 – Arholiadau Rhifedd:** Uned 1 – 7/11/2 3 ac Uned 2 Rhifedd – 9/11/23: Bydd sesiynau adolygu ychwanegol yn cael eu darparu gan yr adran ar ddydd Llun, 6 Tachwedd a dydd Mercher, 7 Tachwedd yn ystod y diwrnod ysgol. Yn dilyn yr arholiadau Rhifedd ar fore 7 a 9 Tachwedd, bydd disgyblion yn dychwelyd i'w dosbarthiadau arferol. Hoffwn eich atgoffa nad ydym yn caniatáu i ddisgyblion ddychwelyd adref ar ôl eu harholiad a dylai pob disgybl aros yn yr ysgol am weddill y dydd.

**Adroddiad Interim Bl11 – 13:** Bydd disgyblion Bl 11,12 a 13 yn derbyn eu hadroddiad cynnydd ddydd Gwener 10/11/23.



*Swogs Bl12 ar gwrs Bl6 Llangrannog*

**Digwyddiadau i ddod:**

| | |
|---|---|
| 9/11/23 | Gweithdy Cerddorfa Clwstwr, Cyngerdd am 4pm (Neuadd Chwaraeon) |
| 11/11/23 | Gŵyl Gerdd Dant, Coleg Caerdydd a'r Fro, Heol Dumballs |
| 13/11/23 | Noson Diogelwch Ar-lein 5pm a 6pm ar *Teams* |
| 14/11/23 | Arholiad TGAU Celf a Dylunio Bl11 |
| 15/11/23 | Gweithdy Bioleg TGAU Bl 11 (Myfyrwyr Gwyddoniaeth Triphlyg) |
| 15& 16/11 | Gweithdy Cerddorfa Unedig (Plasmawr a Chanolfan Mileniwm Cymru) |
| **20/11/23** | **HMS – ysgol ar gau i ddisgyblion** |
| 23/11/23 | Noson Rhieni Bl13 (Glantaf) 3.30-6pm |
| 24/11/23 | Noson y Rasus – Cyfeillion Glantaf yng Nghlwb Tennis yr Eglwys Newydd @ 7.30pm |
| 28-30/11 | "*Un Bore Mawrth*" Cynhyrchiad drama yng Nglantaf – tocynnau ar ParentPay! |

**Ymwybyddiaeth dyslecsia**: Roeddem yn falch o godi ymwybyddiaeth o ddyslecsia yn ystod gwasanaethau a sesiynau cofrestru yn ystod mis Hydref, yn ogystal â fideos addysgiadol ar ein cyfrif X: [Gweld y byd mewn lliw gyda Dyslecsia / Newyddion Ni 4 Hydref 2023 - YouTube]

**Diwali**: Yn olaf, rydym yn anfon ein dymuniadau gorau i deuluoedd a fydd yn dathlu Diwali, gŵyl y goleuadau dros y penwythnos nesaf! Boed i oleuadau Diwali lenwi'ch bywyd gyda llewyrch, heddwch a iechyd da!

Fel bob amser os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r ysgol a dilynwch ein cyfrif X @Ysgol_Glantaf

Yn gywir
MHTEvans
Mr Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf


*Medalau Arian Sirol i Gymnastwyr Ifanc Bl 7*